

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

<http://senedd.tv/cy/3220>

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Medi 2015

Amser: Times Not Specified

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Christine Chapman AC (Cadeirydd) Peter Black AC Alun Davies AC Janet Finch-Saunders AC Mike Hedges AC Mark Isherwood AC Gwyn R Price AC John Griffiths AC Rhodri Glyn Thomas AC
Tystion:	Ken Skates AC, Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Natasha Hale, Llywodraeth Cymru Jon Westlake, Head of Sport, Outdoor Recreation and Landscapes Kate Clark, Llywodraeth Cymru



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Staff y Pwyllgor:	Sarah Beasley (Clerc) Sarah Sargent (Dirprwy Glerc) Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol) Robin Wilkinson (Ymchwilydd)
-------------------	---

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#) (PDF 231KB) [Gweld fel HTML](#) (269KB)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.
- 1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gwenda Thomas AC a Jocelyn Davies. Dirprwyodd John Griffiths AC ar ran Gwenda Thomas AC, yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

2 Ymchwiliad Etifeddiaeth: y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

2.1 Datganodd Mike Hedges y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- Mae'n Llywydd Côr Merched Treforys, noddwr Côr Clwb Rygbi Treforys, cefnogwr Côr Orpheus Treforys, Llywydd Clwb Pêl-droed Ynystawe, Is-lywydd Clwb Pêl-droed Tref Treforys, aelod o Glwb Rygbi Treforys, ac yn gefnogwr Clybiau Rygbi Y Glais, Birchgrove a Bonymaen.

2.2 Datganodd Peter Black y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- Mae'n Aelod o Ddinas a Sir Abertawe.

2.3 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Ken Skates AC, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
- Kate Clark, Cyfarwyddwr, CADW
- Natasha Hale, Dirprwy Gyfarwyddwr y Sector a Busnes, Llywodraeth Cymru
- Jon Westlake – Pennaeth yr Is-adran Chwaraeon

2.4 Yn ystod y cyfarfod, cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu i'r Pwyllgor gopi o'r Memorandwm o Ddealltwriaeth a gytunwyd yn ddiweddar rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas ag adolygiad Siarter y BBC. Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- Gwaith Llywodraeth Cymru ar arfer gorau ledled Ewrop ynghylch dulliau amgen o ddenu cyllid ar gyfer y celfyddydau; yn gysylltiedig â hyn, dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru ddarparu papur briffio ar gyfer Aelodau sy'n ymateb yn rhannol i'r gwaith hwn;
- manylion yr adroddiad disgwylidig gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn sgil ei asesiad cyfredol o effaith cyllid ar gyfer Celfyddydau a Busnes Cymru, a'i berfformiad;
- manylion am gapeli ac eglwysi rhestredig gwag/heb eu meddiannu, yn ôl gradd, a a mynwentydd/safleoedd claddu;
- rhagor o wybodaeth am enghraifft Barcelona a nodwyd mewn perthynas â threfniadau ar gyfer delio ag adeiladau rhestredig gwag, gan gynnwys argaeledd pwerau i roi dirwyon;
- rolau a chyfrifoldebau'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol, Bwrdd Ymgynghorol Amgylchedd Hanesyddol Cymru, a Grŵp Treftadaeth Cymru.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

5 Ymchwiliad Etifeddiaeth: y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth – trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth.

6 Trafod y flaenraglen waith

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref a chytunodd i ymgymryd â'r gwaith canlynol:

- ymchwiliad i Adolygiad Siarter y BBC;
- archwiliad o Fil Drafft Cymru Llywodraeth y DU mewn perthynas â chylch gwaith y Pwyllgor, cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Bil drafft gael ei gyhoeddi;
- craffu ar gyfrifoldebau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i adroddiad blynyddol;
- craffu ar ddiwygiad arfaethedig Llywodraeth Cymru o'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol.

7 Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.